| Enw'r Ymgeisydd *Candidate's Name* | Rhif y Ganolfan *Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd *Candidate Number* |
|---|---|---|
| | | 0 |

**TGAU**

261/08

# CYMRAEG AIL IAITH (CWRS BYR)
# *WELSH SECOND LANGUAGE (SHORT COURSE)*

**DARLLEN AC YSGRIFENNU**
***READING AND WRITING***
**HAEN UWCH**
***HIGHER TIER***

P.M. DYDD IAU, 16 Mehefin 2011
*P.M. THURSDAY, 16 June 2011*

1 awr
*1 hour*

0261
080001

**Arholwr yn unig**

| Rhif y Cwestiwn | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |
| 3 | | |
| 4 | | |
| CYFANSWM | | |

**CYFARWYDDIADAU**
***INSTRUCTIONS***

Defnyddiwch inc neu feiro du.
*Use black ink or black ball-point pen.*

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y bylchau ar ben y dudalen hon.
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*

Atebwch **bob** cwestiwn.
*Answer **all** questions.*

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau a ddarperir yn y papur cwestiynau hwn.
*Write your answers on the lines provided in this question paper.*

**GWYBODAETH**
***INFORMATION***

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

Nodir y marciau a ddyfernir ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau darllen fel a ganlyn: [✓= 2] ac ati.
*Marks awarded for accuracy of expression within the reading questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

**1.** Darllenwch flog Louise ac yna gwnewch y tasgau **yn Gymraeg**.
*Read Louise's blog and then complete the tasks* ***in Welsh****.* [12 + ✓= 4] = **[16]**

Wedi blino'n lân ar ôl bod yn gweithio yn y siop fara trwy'r dydd. Wedi dechrau bore yma am hanner awr wedi chwech a newydd orffen am bump o'r gloch. Roedd rhaid i mi weithio trwy'r dydd achos mae mam yn yr ysbyty ac roedd dad yn gweithio ar y fan yn mynd â bara o gwmpas y wlad.

Wel, dw i'n edrych ymlaen at yr wythnos nesa – mae mam yn dod adre o'r ysbyty a dw i'n gorffen fy arholiadau. Diolch byth! Rhaid i mi weithio yn y siop ddechrau Awst ond dw i'n cael pythefnos o wyliau wedyn ar ddiwedd mis Awst. Gobeithio bydd y tywydd yn dda. Rydyn ni'n mynd fel teulu i Dwrci. Rhaid i mi brynu dillad newydd cyn hynny – mae Dafydd a fi yn mynd i siopa yn Abertawe. Dw i eisiau bicini, crysau T a ffrog ysgafn newydd. Mae Twrci yn wlad hyfryd - ydych chi wedi bod yno?

Y flwyddyn nesa dw i wedi penderfynu mynd i'r coleg chweched dosbarth yn Abertywyn. Dw i eisiau astudio Seicoleg a dydw i ddim yn gallu astudio Seicoleg yn yr ysgol achos mae'r athro'n gadael.

Mynd i wrando ar fy iPod nawr ac ymlacio gyda fy hoff ganwr - Robbie Williams.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(i) Llenwch y grid **yn Gymraeg**.
*Complete the grid* ***in Welsh****.* **[12]**

| | |
|---|---|
| Wedi bod yn gweithio. Ble? | [1] |
| Dechrau gweithio. Faint o'r gloch? | [1] |
| Gorffen gweithio. Faint o'r gloch? | [1] |
| Yn gweithio trwy'r dydd. Pam? | i) .......... [1]<br>ii) .......... [1] |
| Edrych ymlaen at yr wythnos nesaf. Pam? | i) .......... [1]<br>ii) .......... [1] |
| Cael gwyliau. | Pryd? .......... [1]<br>Mynd i ble? .......... [1] |
| Mynd i siopa. Ble? | [1] |
| Pa goleg flwyddyn nesaf? | [1] |
| Pam ddim yn aros yn yr ysgol? | [1] |

0261
080003

(ii) Ysgrifennwch **ddau** ymateb i flog Louise **yn Gymraeg** e.e. y gwyliau, y coleg, hoff ganwr. Cofiwch roi rhesymau.
*Write* ***two*** *responses to Louise's blog* ***in Welsh*** *e.g. the holiday, the college, favourite singer. Remember to give reasons.* [✓= 4]

(1) ..........

..........

(2) ..........

..........



**Trosodd.**

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**2.** Ysgrifennwch **yn Gymraeg** am **3** o'r canlynol ar gyfer eich gwefan ysgol chi.
*Write **in Welsh** about **3** of the following for your school's website.* **[16]**

(i) Pethau diddorol am eich ardal chi. *Interesting things about your area.*

(ii) Defnyddio cyfrifiaduron, safleoedd ar y we ac *iPods*. *Using computers, web sites and iPods.*

(iii) Chwaraeon a gemau dw i'n hoffi a ddim yn hoffi. Pam? *Sports and games I like and don't like. Why?*

(iv) Hoff leoedd i fynd gyda ffrindiau a pham. *Favourite places to go with friends and why.*

0261
080005

# TUDALEN WAG
# *BLANK PAGE*

**3.** Darllenwch dudalen Tim Roberts a Siân Titler yng nghylchgrawn y coleg. Yna gwnewch y tasgau **yn Gymraeg**.
*Read Tim Roberts and Siân Titler's page in the college magazine. Then complete the tasks* ***in Welsh****.* [28 + ✓= 6] = **[34]**



Dyma lun o fyfyrwyr coleg Mynydd Du yn glanhau afon Nantfawr. Yn anffodus mae'r afon yn agos i stad o dai ac mae llawer o bobl yn taflu sbwriel i'r afon achos mae'r safle ailgylchu ddeg milltir i ffwrdd. Rydyn ni wedi anfon llythyr i'r cyngor yn gofyn am ganolfan ailgylchu ym Mynydd Du.

Mae llawer o graffiti ar waliau'r siopau yn y dref hefyd ac mae grŵp o'r myfyrwyr wedi mynd ati i lanhau'r graffiti er mwyn i'r dref edrych yn lanach ac felly wedyn yn denu mwy o siopwyr i Fynydd Du. Mae'r grŵp yma hefyd yn mynd i siarad â'r disgyblion yn yr ysgol gyfun leol. Maen nhw eisiau cael deiseb i'r cyngor i ofyn am gyfleusterau gwell ar gyfer pobl ifanc yn yr ardal. Mae eisiau canolfan hamdden a phwll nofio ym Mynydd Du achos ar hyn o bryd does dim byd i'r plant a'r ieuenctid wneud gyda'r nos ac yn ystod y gwyliau.

Mae'r myfyrwyr yma yn y llyfrgell leol yn defnyddio'r cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd am ddeg o'r gloch y nos. Beth sy'n newydd am hynny? Wel, roedd y llyfrgell yn arfer cau am hanner awr wedi pump a doedd neb yn gallu defnyddio'r cyfrifiaduron wedyn. Nawr mae'r disgyblion a'r myfyrwyr yn gallu mynd i'r llyfrgell gyda'r nos i wneud eu gwaith cwrs a'u gwaith cartref ac anfon e-bost at eu ffrindiau hefyd.




Mae cymdeithas Owain Glyndŵr yn y coleg wedi gwneud llawer o waith da i gael mwy o bobl i siarad Cymraeg yn ardal Mynydd Du. Maen nhw wedi cael bathodynnau 'Dw i'n siarad Cymraeg' i ddangos pwy sy'n siarad Cymraeg yn y siopau. Wedyn, mae pobl sy'n dysgu Cymraeg yn gwybod eu bod yn gallu ymarfer a defnyddio eu Cymraeg gyda'r bobl yma. Mae'r prosiect yma'n gweithio'n dda ac mae tri dosbarth Cymraeg newydd wedi dechrau yn y llyfrgell.

deiseb = *petition*

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(i) Atebwch y cwestiynau **yn Gymraeg**.
*Answer the questions* ***in Welsh****.* **[28]**

1. Beth ydy enw'r afon mae'r myfyrwyr yn glanhau? [2]

..............................................................................................................................................

2. Pam mae pobl yn taflu'r sbwriel i'r afon? [3]

..............................................................................................................................................

3. Yn eu llythyr beth mae'r myfyrwyr yn gofyn i'r cyngor wneud? [3]

..............................................................................................................................................

4. Pam mae'r myfyrwyr yn glanhau'r graffiti yn y dref?

   (i) .............................................................................................................................. [2]

   (ii) .............................................................................................................................. [2]

5. Beth maen nhw yn gofyn i'r cyngor wneud yn y ddeiseb? [3]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

6. Faint o'r gloch oedd y llyfrgell yn arfer cau? [2]

..............................................................................................................................................

7. Pam mae'r myfyrwyr eisiau i'r llyfrgell fod ar agor yn hwyr gyda'r nos? [4]

   (i) ..............................................................................................................................

   (ii) ..............................................................................................................................

8. Beth mae Cymdeithas Owain Glyndŵr wedi wneud i gael mwy o bobl yr ardal i siarad Cymraeg? [4]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

9. Sut ydych chi'n gwybod bod y prosiect wedi gweithio'n dda? [3]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................



**Trosodd.**

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(ii) Ar ôl darllen y dudalen dewiswch **ddau** o'r syniadau a dwedwch pam yn eich barn chi eu bod yn syniadau da neu'n syniadau gwael. Ysgrifennwch **yn Gymraeg.**
*After reading the page choose **two** of the ideas and say why in your opinion they are good or poor ideas. Write **in Welsh**.* [✓= 6]

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**4.** Ysgrifennwch erthygl **yn Gymraeg** yn trafod **dau** o'r pethau canlynol. (Tua 100 o eiriau.)
*Write an article **in Welsh** discussing **two** of the following. (About 100 words.)* **[34]**

*(a)* Bwlian yn yr ysgol a'r gymuned. *Bullying in school and in the community.*

*(b)* Defnyddio'r rhyngrwyd. *Using the internet.*

*(c)* Papurau bro a chylchgrawn ysgol. *Area newspapers and school magazines.*

*(ch)* Yr arian mae chwaraewyr a phobl enwog yn ei gael. *The money earned by sports players and famous people.*

*(d)* Dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol a'r gymuned. *Learning to speak Welsh in school and in the community.*



**Trosodd.**

Arholwr yn unig
*Examiner only*